


# Roadmap To a Smoke-free Wales

## ASH Wales Priorities for the 2026 Senedd Elections


ash wales cymru
action on smoking and health

@ashwalescymru   ash.wales   029 2049 0621


Action on Smoking and Health (ASH) Wales Cymru is a registered charity (1120834) and Company Limited by Guarantee (6030302)

# A Message from Our Chief Executive

The path to a smoke-free Wales has never been clearer. With strong leadership and the collective will of the people of Wales, we can build a healthier, fairer future for all.

Tobacco takes a devastating toll, destroying lives, burdening our NHS, and deepening inequalities. It steals futures, from children growing up surrounded by smoke to older adults living with long-term illness. Over 3,800 people die from smoking in Wales each year, one in ten deaths among over-35s. But we have the power to change this.

The Tobacco and Vapes Bill is a welcome step, but it won't end the smoking epidemic on its own. We must use every tool available to support the 320,000 people in Wales who still smoke. Without continued investment - particularly in quit support - too many will be left behind.

The Welsh public backs bold action. From raising the age of sale to fully funding stop smoking services and supporting pregnant women to quit, people across Wales are calling for real leadership and lasting change. That's why ASH Wales urges the next Welsh Government to commit to bold, evidence-based action.

Our Roadmap to a Smoke-Free Wales sets out four key priorities: Prevention, Tackling Inequality, Innovation, and Co-production. This is not just about health - it's about fairness. Everyone in Wales, regardless of background or income, deserves to live free from addiction and preventable illness.

Together, we can create a Wales where fewer children start smoking, more people get the help they need to quit, and every community is healthier, stronger, and full of hope.

Let's be the generation that ends smoking for good.

Suzanne Cass, Chief Executive, ASH Wales

## We call on the next Welsh Government to commit to:



Urgently reconvene the Tobacco Control Strategy Board and agree a national implementation plan to continue the work of the previous plan, which expired in 2024



Fully fund the implementation of all measures contained in the Tobacco and Vapes Bill, including raising the age of sale for tobacco products and a national retail licencing scheme



Ensure tobacco control consequential funding is targeted directly, and in full, to tobacco control service delivery including a national strategy to tackle illegal tobacco and vapes



Embed partnership working and cross government collaboration in the development and delivery of all public health policies

# The priorities for the next Welsh Government should be

## 1. Prevention: Putting Health First

Calls for a greater focus on prevention have been consistent since the beginning of devolution in Wales. Tackling smoking is one of the most effective and impactful ways to prevent disease, save lives, and improve overall population health.

**Smoking is still the leading preventable causes of death and ill health in Wales.**

The deaths of 3,841 people in Wales every year are attributable to smoking. That equates to one in ten of all deaths among over 35-year-olds.



Tobacco affects the health of users at all stages of life, from stillbirth to dementia, and remains a leading cause of preventable illnesses including cancer, cardiovascular disease and stroke.

The next Welsh Government must demonstrate a renewed and long-term commitment to prevention by embedding sustainable investment across all levels of government and public services.

We are calling on the next Welsh Government to commit to the sustainable funding of prevention in all its forms, by ensuring tobacco control consequential funding is targeted directly, and in full, to tobacco control service delivery.

Tackling illegal tobacco and vapes in our communities is a crucial element of prevention. We call on the next Welsh Government to recognise this and commit to a fully-funded national strategy for communications and enforcement for illegal tobacco and vapes.



# 2. Tackling Inequality: Health for All

Smoking is both a cause and consequence of poverty. A bold, whole-government response is needed - one that moves beyond managing illness to promoting wellbeing.

ASH Wales calls on the next First Minister to lead a national mission that:

- Recognises the inextricable link between poverty and smoking within all tobacco control strategies.
- Ensures all government departments - not just the NHS - are actively involved in prevention and cessation planning.

Cessation services must be reshaped to meet people where they are, especially those living in poverty. This includes ensuring services are flexible and compassionate.

With a new government comes and new approach it's time that support for smokers is embedded across community settings, such as:

- Debt advice and financial support services
- Food banks and warm hubs
- Housing and homelessness programmes




Empowering professionals in these environments with "very brief advice" training will normalise cessation conversations and increase the number of smokers accessing NHS stop smoking services

This approach will support de-normalisation of smoking in our most disadvantaged communities and will allow those supporting or interacting with smokers and their families in familiar and trusted community settings to have conversations about how to quit and where to find free support.



# 3. Innovation: Delivering Evidence-Based Change

To protect future generations, the next Welsh Government must deliver evidence-based prevention and harm-reduction interventions and innovations at pace, across all of Wales.

The next Welsh Government should commit to:

- Scaling up pilot programmes that have shown impact in Welsh communities.
- Delivering proven, population-level strategies across all parts of Wales.

**Key priorities include:**

**Lung Screening Roll-Out:**
A fully-funded, targeted lung screening programme - prioritised in areas with the highest smoking rates and lung cancer mortality. The programme must include in-person, compassionate cessation support. Consideration should be given to offering screening to adults raised in smoking households.



**Incentives to Quit During Pregnancy:**
Sustainable funding for NICE-recommended financial incentives for pregnant smokers. These initiatives are widely supported by the Welsh public and offer critical cross-generational impact - giving children a healthier start in life.

# 4. Co-production: Working Together for Impact

Third sector and partner organisations are essential to the success of tobacco control strategies in Wales. Their knowledge, networks, and experience must be harnessed - not sidelined.

ASH Wales calls on the next Welsh Government to:

- Rebuild strong, constructive relationships with third sector alliances - including the Wales Tobacco Control Alliance.
- Commit to regular, transparent engagement with the voluntary sector as equal partners in policy development.
- Foster collaboration through trust, respect, and a shared mission of co-production.





# Y Ffordd i Gymru Ddi-fwg

## Blaenoriaethau ASH Cymru ar gyfer Etholiadau'r Senedd 2026



ash wales cymru
action on smoking and health

@ashwalescymru ash.wales 029 2049 0621

Mae Gweithredu ar Ysmygu ac Iechyd (ASH) Cymru yn elusen gofrestredig (1120834) ac yn Gwmni Cyfyngedig drwy Warant (6030302)

# Neges gan ein Prif Weithredwr

Dyw'r llwybr i Gymru ddi-fwg erioed wedi bod yn gliriach. Gydag arweinyddiaeth gref ac ewyllys pobl Cymru, gallwn adeiladu dyfodol iachach, tecach i bawb.

Mae tybaco yn cael effaith ddinistriol: mae'n dinistrio bywydau, yn rhoi baich ar ein GIG, ac yn dyfnhau anghydraddoldebau. Mae'n dwyn dyfodol pobl – o blant sy'n cael eu magu ynghanol mwg i oedolion hŷn sy'n byw gyda salwch hirdymor. Mae dros 3,800 o bobl yn marw o ysmygu yng Nghymru bob blwyddyn, sef un o bob deg marwolaeth ymhlith pobl dros 35 oed. Ond mae gennym y pŵer i newid hyn.

Mae'r Bil Tybaco a Fêps yn gam i'w groesawu, ond fydd y bil ar ei ben ei hun ddim yn ddigon i ddod â'r epidemig ysmygu i ben. Rhaid inni ddefnyddio pob offeryn sydd ar gael i gefnogi'r 320,000 o bobl yng Nghymru sy'n dal i ysmygu. Heb fuddsoddiad parhaus – yn enwedig mewn cymorth i roi'r gorau iddi – bydd gormod yn cael eu gadael ar ôl.

Mae'r cyhoedd yng Nghymru yn cefnogi gweithredu dewr. O godi'r oedran y mae gan bobl hawl i brynu cynhyrchion tybaco, i ariannu'n llawn wasanaethau sy'n helpu pobl i roi'r gorau iddi a chefnogi ysmygwyr beichiog, mae pobl ledled Cymru yn galw am arweinyddiaeth go iawn a newid parhaol. Dyna pam mae ASH Cymru yn annog llywodraeth nesaf Cymru i ymrwymo i weithredu mewn ffordd feiddgar, ar sail tystiolaeth.

Mae'r Ffordd i Gymru Ddi-fwg yn nodi pedair prif flaenoriaeth: Atal, Taclo Anghydraddoldeb, Arloesi, a Chydgynhyrchu. Dyw hyn ddim yn ymwneud ag iechyd yn unig – mae'n ymwneud â thegwch hefyd. Mae pawb yng Nghymru, waeth beth fo'u cefndir neu eu hincwm, yn haeddu byw'n rhydd o ddibyniaeth a salwch y mae modd ei atal.

Gyda'n gilydd, gallwn greu Cymru lle mae llai o blant yn dechrau ysmygu, mwy o bobl yn cael y cymorth sydd ei angen arnyn nhw i roi'r gorau iddi, a lle mae pob cymuned yn iachach, yn gryfach, ac yn llawn gobaith.

Gadewch i ni fod y genhedlaeth sy'n rhoi'r gorau i ysmygu am byth.

Suzanne Cass, Prif Weithredwr ASH Cymru

## Galwn ar lywodraeth nesaf Cymru i ymrwymo i:



Ailgynnull y Bwrdd Strategaeth Rheoli Tybaco ar frys a chytuno ar gynllun gweithredu cenedlaethol i barhau â gwaith y cynllun blaenorol, a ddaeth i ben yn 2024



Ariannu'n llawn y gwaith o weithredu'r holl fesurau yn y Bil Tybaco a Fêps, gan gynnwys codi'r oedran y mae hawl gan bobl i brynu cynhyrchion tybaco, a chynllun trwyddedu manwerthu cenedlaethol



Sicrhau bod cyllid canlyniadol rheoli tybaco yn cael ei dargedu'n uniongyrchol, ac yn llawn, at gynnig gwasanaethau rheoli tybaco, gan gynnwys strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â thybaco a fêps anghyfreithlon



Gwreiddio'r cysyniad o weithio mewn partneriaeth a chydweithio trawslywodraethol wrth ddatblygu a chyflawni holl bolisïau iechyd y cyhoedd

# Dylai blaenoriaethau llywodraeth nesaf Cymru gynnwys:

## 1. Atal: Rhoi Iechyd yn Gyntaf

Mae galwadau am ganolbwyntio mwy ar atal wedi bod yn gyson ers dechrau datganoli yng Nghymru. Mynd i'r afael ag ysmygu yw un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o atal afiechyd, achub bywydau, a gwella iechyd cyffredinol y boblogaeth.

**SMae ysmygu yn dal i fod y prif achos o farwolaethau a chlefydau y mae modd eu hosgoi yng Nghymru.**



Mae 3,841 o bobl yng Nghymru yn marw bob blwyddyn oherwydd ysmygu. Mae hynny'n cyfateb i un o bob deg o'r holl farwolaethau ymhlith pobl dros 35 oed. Mae tybaco'n effeithio ar iechyd defnyddwyr ar bob cam o'u bywyd, o farw-enedigaeth i ddementia, ac mae'n parhau i fod yn brif achos salwch y mae modd ei atal, gan gynnwys canser, clefyd cardiofasgwlaidd a strôc.

Rhaid i lywodraeth nesaf Cymru ddangos ymrwymiad newydd a hirdymor i atal drwy wreiddio buddsoddiad cynaliadwy ar bob lefel o'r Llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus.

Galwn ar lywodraeth nesaf Cymru i ymrwymo i gyllid cynaliadwy ar gyfer atal yn ei holl ffurfiau, drwy sicrhau bod cyllid canlyniadol rheoli tybaco yn cael ei dargedu'n uniongyrchol, ac yn llawn, at gynnig gwasanaethau rheoli tybaco.

Mae mynd i'r afael â thybaco a fêps anghyfreithlon yn ein cymunedau yn elfen hanfodol o atal. Galwn ar lywodraeth nesaf Cymru i gydnabod hyn ac ymrwymo i strategaeth genedlaethol a gaiff ei hariannu'n llawn ar gyfer cyfathrebu a gorfodi ar gyfer tybaco a fêps anghyfreithlon.



# 2. Taclo Anghydraddoldeb: Iechyd i Bawb

Mae ysmygu yn achos ac yn ganlyniad tlodi. Mae angen ymateb beiddgar, gan y Llywodraeth gyfan – un sy'n mynd y tu hwnt i reoli salwch i hybu lles.

Mae ASH Cymru yn galw ar y Prif Weinidog nesaf i arwain cenhadaeth genedlaethol sy'n:

- Cydnabod y cysylltiad annatod rhwng tlodi ac ysmygu ym mhob strategaeth rheoli tybaco;
- Sicrhau bod holl adrannau'r Llywodraeth – nid y GIG yn unig – yn cymryd rhan weithredol yn y gwaith o gynllunio atal a rhoi'r gorau iddi.

Rhaid ail-lunio gwasanaethau sy'n helpu pobl i roi'r gorau iddi i gwrdd â phobl lle maen nhw, yn enwedig y rhai sy'n byw mewn tlodi. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod gwasanaethau'n hyblyg ac yn dosturiol.

Gyda llywodraeth newydd y daw dull gweithredu newydd, ac mae'n bryd i gymorth i ysmygwyr gael ei wreiddio ar draws lleoliadau cymunedol, megis:



- Gwasanaethau cyngor ar ddyledion a chymorth ariannol;
- Banciau bwyd a chanolfannau cynnes;
- Rhaglenni tai a digartrefedd.

Bydd grymuso gweithwyr proffesiynol yn y mannau hyn gyda hyfforddiant "cyngor cryno iawn" yn normaleiddio sgyrsiau ar roi'r gorau i ysmygu. Bydd hefyd yn cynyddu nifer yr ysmygwyr sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG sy'n eu helpu i roi'r gorau iddi.

Bydd yr ymagwedd hon yn cefnogi'r gwaith o ddadnormaleiddio ysmygu yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig. Bydd hefyd yn galluogi'r rhai sy'n cefnogi neu'n rhyngweithio ag ysmygwyr a'u teuluoedd mewn lleoliadau cymunedol cyfarwydd i gael sgyrsiau am sut i roi'r gorau iddi a ble i ddod o hyd i gymorth am ddim.



# 3. Arloesi: Cyflawni Newid ar Sail Tystiolaeth

Er mwyn amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol, rhaid i lywodraeth nesaf Cymru gynnig ymyriadau ac arloesi ar sail tystiolaeth wrth atal a lleihau niwed, a hynny'n gyflym ledled Cymru gyfan.

**Dylai llywodraeth nesaf Cymru ymrwymo i:**

- Ehangu rhaglenni peilot sydd wedi dangos effaith yng nghymunedau Cymru
- Rhoi strategaethau profedig ar waith sy'n canolbwyntio ar lefel y boblogaeth ym mhob rhan o Gymru.

**Ymhlith y prif flaenoriaethau mae:**

**Cyflwyno Profion Sgrinio'r Ysgyfaint:**
Rhaglen sgrinio'r ysgyfaint wedi'i hariannu'n llawn a'i thargedu – wedi'i blaenoriaethu mewn ardaloedd sydd â'r cyfraddau uchaf o ran ysmygu a marwolaethau o ganser yr ysgyfaint. Rhaid i'r rhaglen gynnwys cymorth personol, tosturiol i roi'r gorau iddi. Dylid ystyried cynnig profion sgrinio i oedolion a fagwyd ynghanol ysmygwyr.



**Cymhellion i Stopio Ymysgu yn ystod Beichiogrwydd:**
Cyllid cynaliadwy ar gyfer cymhellion ariannol a gaiff eu hargymell gan NICE i ysmygwyr beichiog. Mae'r mentrau hyn yn cael eu cefnogi'n eang gan y cyhoedd yng Nghymru ac yn cael effaith hollbwysig ar draws y cenedlaethau - gan roi dechrau iachach mewn bywyd i blant.

# 4. Cydgynhyrchu: Cydweithio i Gael Effaith

Mae sefydliadau'r trydydd sector a phartneriaid yn hanfodol i lwyddiant strategaethau rheoli tybaco yng Nghymru. Rhaid harneisio eu gwybodaeth, eu rhwydweithiau a'u profiad – nid eu gwthio i'r cyrion.

Mae ASH Cymru yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i:

- Ailadeiladu perthynas gref, adeiladol gyda chynghreiriau trydydd sector – gan gynnwys Cynghrair Rheoli Tybaco Cymru;
- Ymrwymo i ymwneud yn rheolaidd ac yn dryloyw â'r sector gwirfoddol fel partneriaid cyfartal wrth ddatblygu polisi;
- Meithrin cydweithio trwy ymddiriedaeth, parch, a chenhadaeth gyffredin o gydgynhyrchu.

